

CYFLWYNIAD

Mae galw cynyddol am gig ac wyau a gynhyrchwyd mewn systemau sy'n galluogi anifeiliaid i fyw ac ymddwyn yn naturiol. Esblygodd dofednod o fewn ecosystem goetir ac mae ganddynt ran i'w chwarae mewn rheoli coetiroedd bychain. Mae anifeiliaid sy'n gallu byw yn ôl eu hymarweddiad naturiol, trwy chwilota am fwyd yn achos dofednod, yn tueddu i fod yn anifeiliaid iachach a gall hyn gael effaith lesol ar ansawdd y cynnyrch terfynol megis cig ac wyau. Gall cynhyrchion o ansawdd uchel hawlio pris uchel yn y farchnad, fel y gall cynhyrchion o systemau sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae cywion ieir a fagwyd o dan y system Label Rouge yn Ffrainc yn ennill premiwm o hyd at 100% o gymharu â chywion ieir cyffredin neu rai buarth yn Ffrainc a thramor.



Ffig 1: Dofednod mewn system Amaeth-Goedwigol

Bydd ailintegreiddio dofednod i systemau coetir hefyd yn helpu i warchod rhai o'r bridiau mwy traddodiadol yn y DU. Mae bridiau dofednod yn diflannu drwy'r byd. Mae bridiau traddodiadol yn tueddu i fod yn wytnach na'r bridiau modern a ddatblygwyd ar gyfer systemau dan do. Mae bridiau traddodiadol yn tueddu i fod yn well am chwilota am fwyd, sy'n eu galluogi i fwydo'n effeithlon yn yr awyr agored.



Ffig 2: Plymouth Barred Rock

BRIDIAU DOFEDNOD

Ceir dros 100 o fridiau a mathau o ddofednod yn y DU. Mae'r Poultry Club of Great Britain yn dosbarthu bridiau i bum categori: Plu Caled; Plu Meddal Trwm; Plu Meddal Ysgafn; Bantamiau o'r lawn Ryw a Bridiau Prin. Datblygwyd y bridiau Plu Meddal Trwm fel adar i'r bwrdd a datblygwyd y bridiau Plu Meddal Ysgafn oherwydd eu gallu i ddodwy wyau. Mae Bantamiau o'r lawn Ryw yn naturiol fychan ac nid oes ganddynt frid mawr cyfatebol. Datblygwyd rhai Bantamiau yn fridiau fferm a thyddyn. Mae bridiau Plu Meddal Trwm sy'n addas ar gyfer cynhyrchu adar i'r bwrdd yn cynnwys Orpington, Sussex, Plymouth Rock a Wyandotte. Mae croesiadau rhwng bridiau Plu Caled a rhai Plu Meddal Trwm hefyd yn gwneud adar da i'r bwrdd. Mae croesrywiau masnachol hefyd ar gael. Nid yw'r rhain ond ar gael mewn niferoedd mawr ar y cyfan, ond gall rhai bridwyr gyflenwi niferoedd bychain o gywion diwrnod oed i'r cynhyrchwr llai.

CYNHYRCHU ADAR I'R BWRDD

Nid oes unrhyw safonau sefydledig ar gyfer cynhyrchu adar i'r bwrdd o fewn system gynhyrchu coetir neu dir pori a choedwig cyfun. Fodd bynnag, mae'r Cod Argymhellion ar gyfer Lles Cywion Ieir Cig a Chywion Ieir Bridio (Defra) yn gyfeirnod defnyddiol. Os ydych yn ymgeisio am statws organig bydd safonau perthnasol y corff ardystio hefyd yn berthnasol.

Mae safon uchel o hwsmonaeth a sicrhau addaswydd yr aderyn i'r system yn hanfodol ar gyfer llwyddiant wrth gynhyrchu adar i'r bwrdd. Awgryma ymchwil ym Mhrifysgol Rhydychen fod adar sy'n tyfu'n arafach ac a orffennir ar 81 diwrnod yn fwy addas i systemau pori a choedwig cyfun nag adar a orffennir erbyn eu bod yn 56 diwrnod oed.



Ffig 3: Cywion brwylio mewn sied ddeor

Caiff yr adar eu prynu fel cywion diwrnod oed fel rheol, a'u magu mewn sied ddeor am tua 3 wythnos. Trosglwyddir yr adar wedyn i'r prif gwt magu. Fel arfer caiff yr adar eu cyfyngu i'r cwt am ychydig ddyddiau er mwyn addasu i'w cartref newydd. Gellir agor tyllau a drysau yn y cwt er mwyn i'r adar fynd allan i'w tiriogaeth. Anogir yr adar yn ôl i'r cytiau wrth iddi ddechrau nosi er mwyn lleihau ymosodiadau gan ysglyfaethwyr. Bydd yr amser hyd at orffen yn ddibynnol iawn ar y brîd o aderyn a ddefnyddir.



Ffig 4: Cywion mewn system Amaeth-Goedwigol

Pan fydd yr adar yn barod, dylid eu rhoi yn y blychau casglu a'u cludo cyn gynted â phosibl i'r lladd-dy. Gall caethiwo a chludo achosi gofid sylweddol a dylid cadw hyn i'r isafswm lle bo hynny'n bosibl.

Cyn derbyn rhagor o adar, dylid glanhau'r cytiau ieir yn drylwyr a'u diheintio cyn symud i borfa a thiriogaeth lân.

SYSTEMAU PORI A CHOEDWIGAETH CYFUN

Ychydig o systemau ieir buarth sy'n cynnwys cynefinoedd coetir er bod llawer yn darparu cysgod, baddonau llwch ac amgylcheddau eraill sy'n cyfoethogi eu ffordd o fyw. Os cynhwyswyd cynefinoedd coetir, tueddwyd i wneud hyn trwy gynnwys rhodfeydd o goed a lleiniau o dir pori cyfoethog o ran llystyfiant. Mae creu rhodfeydd o goed yn galluogi i'r cytiau ieir gael eu symud i lawr y borfa rhyngddynt bob tro y derbynnir adar newydd.

Canfuwyd hefyd fod plannu lleiniau cyfoethog eu llystyfiant yn llesol i'r adar. Yn Fferm Organig Sheepdrove plannwyd cymysgedd o llystyfiant sy'n darparu elfennau maethol a meddyginiaethol. Roedd y coed a blannwyd yn Sheepdrove hefyd yn gymysg er mwyn darparu pren, cysgod a bwyd. Mewn prosiect o gyllidwyd gan DEFRA, Poultry in Natural Environment (PINE), dangoswyd bod effaith y cywion ieir yn llesol i'r coed. Yn Sheepdrove a'r prosiect PINE plannwyd cyfuniad o goed llydanddail a chonifferaidd. Mae canlyniadau prosiect PINE hefyd yn awgrymu y ceir adenillion economaidd yn llawer cynt trwy ymgorffori cywion ieir mewn planhigfeydd coetir newydd.

CYFEIRIADAU a GWYBODAETH BELLACH

Am wybodaeth ar brosiect PINE a gyllidir gan DEFRA: <http://users.ox.ac.uk/~snikwad/PINE.html>

Am wybodaeth gyffredinol ar ddofednod: www.poultryclub.org

Am ganllawiau iechyd a lles anifeiliaid: <http://www.defra.gov.uk/animalh/animindx.htm>